

Digimap for Schools

Cyrraedd yma

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Cyrraedd yma

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Dod o hyd i'r ysgolion blaenorol yr oedd y disgyblion wedi'u mynychu a chymharu'r llwybr yr oedden nhw'n arfer ei gymryd gyda'r llwybr y maen nhw'n ei ddilyn nawr.	Unrhyw ysgolion

Gwybodaeth a Sgiliau	Cyflwyniad i <i>Digimap for Schools</i> . Lefelau closio.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Sgiliau mapio/daeryddiaeth leol.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd gan ddefnyddio mapiau, a defnyddio mathau gwahanol o fapiau a mapiau graddfeydd gwahanol i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 0-07a, 1-14a, 2-09a.


Gweithgaredd

- Dod o hyd i'r raddfa map fwyaf addas.
- Gwybod sut i farcio ac anodi lleoedd ar fap a thynnu llinell y llwybr rhyngddynt.
- Mesur llwybr mewn milltiroedd a chilometrau.

Cyflwyniad

Bydd y gweithgaredd hwn yn cyflwyno myfyrwyr i *Digimap for Schools*, ac yn eu helpu nhw i greu map sy'n cysylltu â'u profiadau ysgol. Mae'r gweithgaredd yn addas i ddechreuwr ac yn weithgaredd gloywi i fyfyrwyr sydd eisoes yn gyfarwydd â'r meddalwedd yn sgil ei ddefnyddio yn yr ysgol gynradd.

Efallai y byddwch eisiau rhai copiau papur o'r canllaw defnyddwyr *The Basics* sydd ar gael ar <http://digimapforschools.edina.ac.uk/Resources/allstages/userguide.pdf>

Gall y fideos byr sydd ar wefan *Digimap for Schools* fod yn ddefnyddiol i fyfyrwyr (ac athrawon) hefyd. Cliciwch ar y botwm hwn . (SYLWER: bydd y botwm help yn weladwy ar ôl i chi fewngofnodi'n unig.)


Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Gallwch gynnal y gweithgaredd hwn trwy ddsbarthu'r daflen weithgaredd i fyfyrwyr, neu os oes yn well gennych, 'modelu' y broses ar fwrdd gwyn rhyngweithiol wrth i'r myfyrwyr weithio gyda chi ar sgriniau o'u blaenau.

Enghraifft: Map myfyrwyr



Mynd gam ymhellach

- Oes gan eich ysgol wefan sy'n dangos lleoliad eich ysgol? Beth am wirio'r mapiau hyn a cheisio creu un gwell.
- Gofynnwch i'r myfyrwyr greu taflen dasgau debyg, fel mai nhw yw'r athro, i esbonio sut mae ychwanegu nodwedd arall at y map.
- Gellid cysylltu'r gweithgaredd hwn â chynllunio teithio ysgol ac amlygu llwybrau mwy diogel i'r ysgol.

Dolenni ar y we

Dim un

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D12328
f1.0 Mehefin 2014

EDINA

Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Cyrraedd yma – Gweithgaredd


Os ydych chi'n gallu darllen hwn, yna rydych chi wedi dod i'r lle iawn; rydych chi wedi cyrraedd yr ysgol.

Bydd y gweithgaredd hwn yn cynnwys defnyddio **Digimap for Schools**: gwefan sy'n caniatáu i chi gael mynediad at fapiau o Brydain Fawr sydd wedi cael eu cynhyrchu gan yr Arolwg Ordnans. Byddwch chi'n cymharu'r daith yr oeddech chi'n arfer ei chyflawni i'ch ysgol gynradd gyda'r daith rydych chi'n ei chyflawni nawr i ddod i'r ysgol hon.

1 Dewch o hyd i fap addas sy'n dangos yr ysgol gynradd/ganol yr oeddech chi'n arfer ei mynychu, a ble rydych chi'n byw.



Rhowch god post (neu enw lle) i ddod o hyd i'r map rydych chi ei eisiau a chlosiwch fel bod eich ysgol gynradd a'ch cartref ar yr un sgrin. Gwnewch eich map yn fwy os bydd hynny o help. .

Pa un o'r mathau hyn o fap ydych chi'n edrych arno?




- Mae hwn yn fap graddfa OS Landranger (gan amlaf, nid yw adeiladau unigol yn cael eu dangos).
- Mae hwn yn fap OS Explorer (mae adeiladau mwy o faint yn cael eu dangos, ond mae rhai llai yn cael eu grwpio).
- Mae hwn yn fap graddfa OS VectorMap Local (mae'r rhan fwyaf o adeiladau ac enwau strydoedd yn cael eu dangos).
- Mae hwn yn fap OS MasterMap (mae adeiladau yn cael eu dangos mewn llawer o fanylder).

2 Marciwch eich ysgol gynradd a'ch cartref.

Agorwch yr *Annotation Toolbar* (bar offer anodi).  Gallwch gylchdroi'r bar offer trwy glicio ar  neu gallwch ei symud i'r ochr trwy glicio ar y bar offer a'i lusgo.


Cliciwch ar y pin coch ac yna cliciwch ar y map i farcio eich ysgol ac ychwanegwch bin i farcio eich cartref hefyd. Paniwch a chlosiwch os oes angen.


3 Tynnwch lun y llwybr o'r ysgol i'ch cartref.

Dewiswch  i dynnu llinell ac yna mesurwch eich taith. (Os ydych chi eisiau newid arddull a lliw eich llinell, gwnewch hyn nawr gan ddefnyddio *Outline Options* (opsiynau amlinellu) cyn dechrau tynnu'r llinell.)

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Cliciwch unwaith ar y map ar un o'ch marcwyr i ddechrau tynnu llinell eich llwybr. Bob tro rydych chi eisiau newid cyfeiriad, mae angen i chi glicio. Os ydych chi eisiau dadwneud rhan o'ch llinell, gallwch bwyso ar Ctr a z i dynnu rhan o'ch llinell. Cliciwch ddwywaith i orffen tynnu eich llinell. (Os oes angen i chi ddileu eich llinell a dechrau eto am unrhyw reswm, dewiswch  a chliciwch ar y llinell.)



Nawr, cliciwch ar yr eicon mesur  a chliciwch ar eich llinell i ddarganfod ei hyd. Ysgrifennwch eich ateb yma: Roedd fy nhaith i'r ysgol gynradd ynkm/milltir.


4 Ychwanegwch eich taith i'r ysgol uwchradd.

Gwnewch yr uchod eto o gam 2 ar gyfer eich taith i'r ysgol rydych yn ei mynychu nawr. Dewiswch linell lliw ac arddull gwahanol i ddangos y daith hon. Ysgrifennwch eich ateb yma:

Mae fy nhaith i'r ysgol uwchradd yn.....km/milltir.

5 Rhowch labeli ar bob lle.

Yn gyntaf, dewiswch liw a maint y testun, gan ddefnyddio *Text Options* (opsiynau testun). Yna dewiswch yr opsiwn LABEL (labelu)  ac ysgrifennwch y label. Os byddwch chi eisiau ei newid wedyn, gallwch ddewis  a chlicio ar y label ar y map. Gallwch newid y geiriau, lliw a maint y testun.

I adleoli'r label (neu unrhyw nodwedd) dewiswch  ac yna gallwch ddewis a llusgo unrhyw anodiad i safle newydd.

Pan fyddwch yn hapus gyda'ch map, caewch y bar anodi a'i gadw mewn ffolder, fel y cewch eich cyfarwyddo gan eich athro.

Os ydych chi'n argraffu eich map, dewiswch raddfa sy'n dangos y ddwy daith.

6 Ysgrifennwch gymhariaeth o'r ddwy daith sy'n cynnwys y pellter a deithiwyd, yr amser a gymerwyd a'r dull teithio.

7 Ysgrifennwch gyfarwyddiadau syml ar gyfer un o'r llwybrau hyn. Soniwch am unrhyw dirnodau pwysig a ddangosir ar y map. Dangoswch y man cychwyn i rywun arall a rhowch y cyfarwyddiadau iddyn nhw. Ydyn nhw'n gallu gwneud eu ffordd i'r lle cywir?

Mynd gam ymhellach

Pa deithiau eraill ydych chi'n eu gwneud yn rheolaidd? Beth am greu map ar gyfer un o'r teithiau hynny hefyd.